CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU
Tystysgrif Addysg Gyffredinol
Uwch Gyfrannol

WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE
General Certificate of Education
Advanced Subsidiary

# CELF A DYLUNIO – AR3

## ARHOLIAD TERFYNOL

## TASG A OSODIR YN ALLANOL

**YMCHWIL AC ASTUDIAETHAU PARATOADOL (Chwe Wythnos)**
**Agorwch y papur hwn ar neu ar ôl Dydd Llun, 27 Chwefror 2006**

**PRAWF DAN ORUCHWYLIAETH**

**8 Awr ar y Mwyaf (O dan Amodau Arholiad)**
**I gychwyn ar neu ar ôl Dydd Llun, 24 Ebrill 2006**

## DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Yn ychwanegol at y papur hwn bydd angen defnyddiau priodol arnoch ar gyfer yr Arholiad Terfynol.

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Mae'r papur hwn yn cynnwys **tasgau**. Rhaid i chi ddewis **un** yn unig. Cyn gwneud eich dewis, dylech ddarllen y papur cwestiynau sawl gwaith a meddwl yn ofalus am ba dasg a fydd yn eich galluogi i gynhyrchu'ch gwaith gorau posibl. Rhaid i chi labelu eich holl waith yn eglur â rhif y dasg, y dyddiad a'ch llofnod i gadarnhau mai chi yn unig sydd wedi gwneud y gwaith, **heb gymorth neb**.

| | |
|---|---|
| Tasgau 1 a 2 | Celf a Dylunio - (0319) |
| Tasgau 3 a 4 | Celfyddyd Gain - (0349) |
| Tasgau 5 a 6 | Dylunio Graffig - (0379) |
| Tasgau 7 a 8 | Tecstilau - (0389) |
| Tasgau 9 a 10 | Dylunio Tri-dimensiwn - (0399) |
| Tasgau 11 a 12 | Ffotograffiaeth - (0359) |
| Tasgau 13 a 14 | Astudiaethau Beirniadol a Chyd-destunol - (0479) |

## YMGEISWYR AR GYFER CELF A DYLUNIO (0319)

Naill ai

- Dewiswch **dasg 1 neu 2** o'r adran Celf a Dylunio.

Neu

- Dewiswch unrhyw **dasg** arall **o 3 i 14**, cyhyd â'ch bod yn gweithio gyda defnyddiau a phrosesau sy'n briodol i'r maes astudio dan sylw. Er enghraifft, os dewiswch dasg 7 neu 8, rhaid i chi ymdrin â'r dasg trwy gyfrwng Tecstilau.

## YMGEISWYR AR GYFER MEYSYDD ASTUDIO PENODOL (CELFYDDYD GAIN; DYLUNIO GRAFFIG; TECSTILAU; DYLUNIO TRI-DIMENSIWN; FFOTOGRAFFIAETH; ASTUDIAETHAU BEIRNIADOL A CHYD-DESTUNOL)

Naill ai

- Dewiswch un o'r tasgau sydd wedi cael eu hysgrifennu'n arbennig ar gyfer eich maes astudio penodol.

Neu

- Dewiswch unrhyw **dasg o 1 i 14**, cyhyd â'ch bod yn gweithio gyda defnyddiau a phrosesau sy'n briodol i'r maes astudio yr ydych chi'n ymgeisydd ar ei gyfer. Er enghraifft, os ydych chi'n ymgeisydd ar gyfer Dylunio Graffig ac os dewiswch dasg 9 neu 10, rhaid i chi ymdrin â'r dasg trwy gyfrwng Dylunio Graffig ar sail y geiriau mewn teip trwm yn llinell gyntaf y dasg.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Mae'r arholiad terfynol yn werth 40% o gyfanswm y marciau ar gyfer UG a 20% o gyfanswm y marciau ar gyfer Safon Uwch os dilynwch yr opsiwn hwnnw.

Gwnewch yn siwr eich bod yn gwybod pa faes astudio neu feysydd astudio yr ydych wedi cael eich cofrestru ar ei gyfer/eu cyfer. Fel egwyddor gyffredinol, os yw eich unedau AR1 ac AR2 yn dod o feysydd astudio **gwahanol**, e.e. Tecstilau a Dylunio Graffig, dylech fod wedi'ch cofrestru ar gyfer Celf a Dylunio (0319). Os yw eich unedau AR1 ac AR2 yn dod o'r **un** maes astudio, e.e. mae'r ddwy yn unedau Celfyddyd Gain, yna dylech fod wedi'ch cofrestru ar gyfer Celfyddyd Gain a rhaid i chi ddewis Celfyddyd Gain yn eich Arholiad Terfynol.

Gall eich chwe wythnos o ymchwil ac astudiaethau paratoadol fod ar unrhyw ffurf (brasluniau, nodiadau, syniadau, cyfeiriadau ac ati). Rhaid i chi gyflwyno eich holl waith ymchwil a pharatoi gyda'ch prawf dan oruchwyliaeth fel rhan o'r Arholiad Terfynol.

Ewch â'ch holl waith ymchwil a pharatoi i'r ystafell arholiad ddynodedig a chwblhewch y dasg yn yr **8 awr** a ganiateir. Bydd eich athro/athrawes yn cofnodi ar y ddalen amser y dyddiad y cychwynnwch eich cyfnod o waith ymchwil a pharatoi a'r holl sesiynau a dreuliwch ar y prawf dan oruchwyliaeth. Ni chaniateir i chi fynd at eich gwaith terfynol rhwng sesiynau arholiad. Nid oes rhaid i'r gwaith terfynol fod yn ddarn gorffenedig o waith, ond rhaid i chi gyfleu'n glir yr hyn yr oeddech yn bwriadu ei wneud.

**Rhaid i'r holl waith gael ei gloi'n ddiogel yn eich canolfan ar ddiwedd yr Arholiad Terfynol.**

Os ydych chi'n ymgeisydd ar gyfer mwy nag un maes astudio, rhaid i chi ddewis **tasg wahanol** ar gyfer pob maes astudio.

Os cynhyrchwch waith ysgrifenedig yn yr arholiad hwn, cofiwch y dylech sillafu, atalnodi a defnyddio rheolau gramadeg yn gywir.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad. **Rhaid i'r holl waith a gynhyrchwch yn y prawf dan oruchwyliaeth fod yn waith a wnaethoch chi, heb gymorth neb.**

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Dylech sicrhau y gall yr hyn y bwriadwch ei gyfleu trwy eich gwaith gael ei ddeall yn glir gan unrhyw un sy'n ei asesu. Mae hyn yn arbennig o bwysig os ydych chi'n ymdrin â thasg a ysgrifennwyd ar gyfer maes astudio ar wahân i'r un yr ydych wedi cael eich cofrestru ar ei gyfer. Gwnewch yn siwr eich bod yn ymdrin â'r holl nodau asesu isod, a ddefnyddir i farcio eich gwaith. Penderfynwch ar y math o waith y byddwch chi'n ei gynhyrchu i ddangos pa mor dda yr ydych chi'n gallu cwrdd â **phob un** ohonynt:

| | **Rhestr gyfeirio ✓/*x*** |
|---|---|
| 1. Cofnodi arsylwadau, profiadau, syniadau a mewnwelediadau *(insights)* | ☐ |
| 2. Dangos diddordebau a chynnal barn annibynnol wrth ddewis ffynonellau | ☐ |
| 3. Casglu, trefnu a throsglwyddo gwybodaeth | ☐ |
| 4. Dangos y gallu i ddadansoddi ffynonellau a'u gwerthuso'n feirniadol | ☐ |
| 5. Dangos ymatebion aeddfed | ☐ |
| 6. Dangos y gallu i wneud dehongliadau sydd wedi'u cyfoethogi gan ddealltwriaeth o bwrpasau, ystyron a chyd-destunau | ☐ |
| 7. Dangos y gallu i archwilio a datblygu syniadau ac ymchwiliadau yr ydych wedi ymgymryd â hwy | ☐ |
| 8. Dewis a defnyddio adnoddau, defnyddiau a thechnegau yn briodol a dangos y berthynas rhwng eich dulliau gweithio a'ch canlyniadau | ☐ |
| 9. Dangos dealltwriaeth wrth ymgorffori elfennau ffurfiol megis llinell, lliw ac ati, a dangos y gallu i'w cymhwyso | ☐ |
| 10. Ymateb â rhwyddineb a dychymyg | ☐ |
| 11. Gwireddu eich bwriadau | ☐ |
| 12. Egluro'r cysylltiadau yr ydych wedi'u gwneud rhwng ymholiadau personol a gwaith pobl eraill. | ☐ |

Rhaid cydnabod unrhyw ddeunydd o ffynonellau eilaidd a dylech ei ddefnyddio'n feddylgar a chreadigol. Ni fydd copïo delweddau ffotograffig neu lwytho deunydd i lawr o'r Rhyngrwyd yn debygol o ennill marciau ar y rhestr gyfeirio uchod. Peidiwch â dwyn syniadau pobl eraill a byddwch yn ddyfeisgar wrth ddefnyddio eich deunyddiau ategol.

## TASGAU

Gellir dehongli'r tasgau canlynol fel briffiau dylunio neu fannau cychwyn yr ydych chi'n ymdrin â hwy am y tro cyntaf neu a ddaeth i'r amlwg o'r blaen yn eich gwaith cwrs. Lle mae tasgau'n codi o waith cwrs sydd eisoes wedi'i wneud, rhaid dangos **datblygiad pellach** hollol amlwg yn eich gwaith terfynol.

Mae'r holl dasgau'n ymwneud â chelf a/neu grefft a/neu ddylunio.

**Dewiswch un dasg yn unig.**

Mae'r ddwy dasg ganlynol ar gyfer ymgeiswyr **CELF A DYLUNIO** yn bennaf.

**1. Archwilio agwedd ar fywyd yn ein hoes dechnolegol.**

*Mae gweithiau celf, crefft a dylunio yn adlewyrchu'r cyfnod a'r diwylliant a'u cynhyrchodd yn aml. Mae gofyn i chi ymchwilio i enghreifftiau cyd-destunol sydd o ddiddordeb a pherthnasedd arbennig i chi. Ar sail yr astudiaeth hon, datblygwch ymateb personol sy'n adlewyrchu eich meddyliau am agwedd ar fywyd yn yr unfed ganrif ar hugain.*

**2. Cynnal astudiaeth o'r syniad o serendipedd.**

*Mae dylunwyr, crefftwyr, artistiaid, ffotograffwyr a gwneuthurwyr ffilmiau i gyd wedi archwilio'r syniad o wneud darganfyddiadau annisgwyl trwy hap a damwain. Ar gyfer y dasg hon, bydd angen i chi astudio enghreifftiau cyd-destunol sy'n bwysig yn eich barn chi ac ymgymryd â'ch astudiaeth eich hun ar sail eich ymchwil. O hyn, datblygwch eich ymateb creadigol eich hun.*

Mae'r ddwy dasg ganlynol ar gyfer ymgeiswyr **CELFYDDYD GAIN** yn bennaf.

**3. Ymchwilio i ddehongliad o berthnasoedd.**

*Mae ymchwilio i berthnasoedd a'u portreadu wedi cyfareddu artistiaid mewn llawer cyfnod a diwylliant. Gellir edrych ar hyn mewn sawl ffordd wahanol, megis y berthynas rhwng mam a'i phlentyn, ffurfiau naturiol a ffurfiau gwneud, cyfryngau a neges, ac elfennau gweledol megis lliw a gwead. Mae'r dasg hon yn gofyn i chi ddewis perthynas sydd o ddiddordeb personol i chi. Gwnewch astudiaeth gyd-destunol berthnasol a datblygwch eich ymateb gwreiddiol eich hun.*

**4. Portreadu amgylchedd sy'n taflu goleuni ar gymeriad y sawl sydd ynddo.**

*Rydym yn aml yn cael ein hudo pan gawn gip ar amgylchedd anghyfarwydd sy'n ein hysgogi i feddwl am gymeriad a ffordd o fyw y sawl sydd ynddo. Gall y rheiny fod mor amrywiol â phryfed, adar, anifeiliaid neu bysgod. Gallai'r amgylchedd fod yn nyth, cwt ci, stiwdio chweched dosbarth, ystafell staff neu efallai ystafell breifat perthynas neu ffrind. Mae'r dasg hon yn gofyn i chi ymchwilio i gyfeiriadau cyd-destunol perthnasol ac, o'r rhain, datblygu ymateb personol sy'n seiliedig ar eich ymchwiliadau eich hun.*

<u>Mae'r ddwy dasg ganlynol ar gyfer ymgeiswyr **DYLUNIO GRAFFIG** yn bennaf.</u>

**5. Archwilio perthnasoedd rhwng delweddau a sain.**

*I nodi'r newid drosodd i ddarlledu digidol, mae gofyn i chi archwilio'r perthnasoedd rhwng delweddaeth graffig a sain. Ymgymerwch ag ymchwil gweledol priodol i waith dylunwyr graffig, ffotograffwyr a/neu artistiaid er mwyn darparu ffynhonnell gyfeirio gyd-destunol ddefnyddiol. Ystyriwch ffyrdd y teimlwch y dylid rhoi gwybod i'r cyhoedd am ddatblygiad darlledu digidol a chynhyrchwch waith graffig addas, megis poster, hysbyslen* (flyer) *a thaflen, at y pwrpas hwn.*

**6. Datblygu gwaith sy'n seiliedig ar brofiadau rhywun sy'n dysgu gyrru.**

*Ystyriwch ffyrdd y gellid hybu agwedd fwy ystyriol at bobl sy'n dysgu gyrru ymhlith gyrwyr eraill a cherddwyr, wedi'u seilio efallai ar eich profiadau eich hun. Mae'r dasg hon yn gofyn i chi ymchwilio i ffynonellau cyd-destunol perthnasol sydd wedi ceisio dylanwadu ar y cyhoedd a chynhyrchu gwaith terfynol priodol a all fod yn ddoniol a/neu'n addysgiadol i'ch cynulleidfa darged.*

<u>Mae'r ddwy dasg ganlynol ar gyfer ymgeiswyr **TECSTILAU** yn bennaf.</u>

**7. Ymchwilio i addurn *(adornment)* creadigol ar gyfer cymeriad o'ch dewis.**

*Mae'r dasg hon yn gofyn i chi ddewis ac ymchwilio i arteffactau sy'n gysylltiedig â chymeriadau go iawn neu ffug o'r gorffennol, megis brenin neu gymeriad llwyfan, neu ffigur cyfoes, megis cymeriad teledu neu seren bop, gan ystyried sut mae'r ddelweddaeth yn cyfleu rhywfaint o bersonoliaeth yr unigolyn dan sylw. Gan ddefnyddio'r astudiaeth hon yn ffynhonnell gyfeirio, dyluniwch a chynhyrchwch waith creadigol ar gyfer cymeriad go iawn neu ffug o'ch dewis eich hun.*

**8. Datblygu ymateb personol i'r term 'hedfan'.**

*Gellir dehongli'r term 'hedfan' mewn llawer gwahanol ffordd, gan amrywio o ddelweddau ac arteffactau wedi'u seilio ar adar, ieir bach yr haf, pryfed sy'n hedfan, barcutiaid yn hedfan i eitemau tecstil a all gael eu gwisgo gan staff cwmni awyrennau neu addurno tu mewn awyrennau modern. Mae'r dasg hon yn gofyn i chi ymchwilio i waith artistiaid, crefftwyr neu ddylunwyr tecstilau sy'n berthnasol i'ch dehongliad arbennig chi a datblygu, ar sail yr astudiaeth hon, eich dyluniadau gwreiddiol eich hun a gwaith tecstil terfynol.*

<u>Mae'r ddwy dasg ganlynol ar gyfer ymgeiswyr **DYLUNIO TRI-DIMENSIWN** yn bennaf.</u>

**9. Ymchwilio i'r syniad o ategu'r ffurfiau naturiol mewn gardd.**

*Mae'r dasg hon yn gofyn i chi ymgymryd ag ymchwil addas ac, ar sail hyn, creu gwaith dyfeisgar a swyddogaethol sy'n ategu'r ffurfiau naturiol mewn gardd. Gallai'r eitem fod yn sedd, yn ddyfais ar gyfer mesur y tywydd neu amser, yn ddyfais bwydo adar neu'n gyfarpar chwarae i'w ddefnyddio mewn gardd. Lle bo'n briodol, ystyriwch ddefnyddio defnyddiau wedi'u hailgylchu. Gall eich gwaith terfynol fod yn faint llawn neu'n fodel wrth raddfa.*

**10. Cynhyrchu gwaith sy'n annog pobl i gyfrannu at elusen.**

*Mae'r dasg hon yn gofyn i chi ymchwilio i a gwerthuso enghreifftiau perthnasol o flychau casglu, teganau addas a dyfeisiau eraill a all annog pobl i roi rhoddion arian parod i elusennau yn y fan a'r lle. Ar sail yr ymchwil hwn, datblygwch syniadau a dyluniadau dyfeisgar ar gyfer dyfais gasglu i elusen o'ch dewis. Dylech roi ystyriaeth briodol i wydnwch a diogelwch (security) y gwrthrych. Gallai'r gwaith terfynol fod ar ffurf prototeip maint llawn neu fodel wrth raddfa.*

<u>Mae'r ddwy dasg ganlynol ar gyfer ymgeiswyr **FFOTOGRAFFIAETH** yn bennaf.</u>

**11. Cyfleu eich dehongliad o ddihareb neu ddywediad sy'n gysylltiedig â golau.**

*Ymchwiliwch i enghreifftiau cyd-destunol perthnasol, megis delweddaeth sydd i fod i gyfleu ystyr moesol, i gynhyrchu adnodd defnyddiol. Ar sail hyn gallwch ystyried dihareb neu ddywediad doeth addas, er enghraifft 'fe ddaw eto haul ar fryn' neu 'goleuni ym mhen draw'r twnnel', i seilio eich ymateb eich hun arno. Datblygwch eich syniadau eich hun i gynhyrchu delweddaeth greadigol sy'n cyfleu dehongliad personol.*

**12. Portreadu Y Tu Ôl i'r Llenni.**

*Mae ffotograffwyr, artistiaid a gwneuthurwyr ffilmiau yn aml wedi creu chwilfrydedd a drama yn eu gwaith trwy bortreadu bywyd y tu ôl i'r llenni. Ar gyfer y dasg hon, mae gofyn i chi astudio a chofnodi eich ymatebion i enghreifftiau cyd-destunol perthnasol a chynhyrchu eich dehongliad arbennig eich hun ar ffurf print ffotograffig, cyfres o brintiau, cyfres o dryloywderau, neu ffilm fideo olygedig.*

<u>Mae'r ddwy dasg ganlynol ar gyfer ymgeiswyr **ASTUDIAETHAU BEIRNIADOL A CHYD-DESTUNOL** yn bennaf.</u>

**13. Ymchwilio i'r berthynas rhwng awyrgylch, testun, cyfansoddiad a phroses mewn dau waith celf cyferbyniol.**

*Yn y dasg hon, mae gofyn i chi ymchwilio i ddau waith celf a/neu ddylunio cyferbyniol, gan ddefnyddio'r penawdau uchod yn gyfrwng ar gyfer archwilio'ch dehongliad eich hun a'ch ymateb eich hun i'r gweithiau. Gallai hyn gymryd unrhyw ffurf sydd yn eich barn chi'n addas, megis brasluniau anodedig, model o set lwyfan, neu sgyrsiau dychmygol rhwng y ffigurau a ddangosir.*

**14. Ymchwilio i agwedd/agweddau ar ddiwylliant penodol, yr ydych wedi gallu astudio enghreifftiau ohono'n uniongyrchol, a chyflwyno ymateb personol.**

*Mae'r dasg hon yn gofyn i chi ymchwilio i agwedd/agweddau ar waith artistiaid, crefftwyr neu ddylunwyr o gefndir diwylliannol sy'n perthyn i'r gorffennol a/neu'r presennol, megis ailgylchu mewn celf Affricanaidd gyfoes. Ar sail hyn, dylech gyflwyno ymateb personol i waith yr ydych wedi'i astudio'n uniongyrchol. Cofnodwch eich ymchwil a'ch ymateb mewn ffordd fywiog a diddorol, megis erthygl mewn cylchgrawn, portffolio, arddangosfa fach, cyfres o dryloywderau, ffilm fideo olygedig neu gyflwyniad Powerpoint.*